| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Adroddiad Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **25 Mehefin 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Bobby Feeley/Phil Gilroy** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Deborah Holmes-Langstone** |
| **Teitl:** | **Dyfodol Gofal Iechyd Cefndy** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn amdano?

Mae'r adroddiad hwn yn sôn am berfformiad Cefndy yn y gorffennol ac yn egluro pam bod dyfodol Cefndy yn dibynnu ar fuddsoddiad sydd wir ei angen. Er bod perfformiad ariannol a gwasanaeth Cefndy wedi bod yn dda, mae'r ffaith bod Cefndy wedi cyflawni effeithlonrwydd wedi atal y gwasanaeth rhag buddsoddi yn isadeiledd ei ffatri.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Bu i Gyngor Sir Ddinbych wneud ymrwymiad (yn y Cynllun Corfforaethol) i gefnogi dyfodol Cefndy drwy gymeradwyo buddsoddiad cyfalaf; mae'r adroddiad hwn yn esbonio pam bod angen buddsoddiad. Mae'r adroddiad yn nodi manylion ac yn cyfiawnhau buddsoddiad cyfalaf ac yn cynnwys dewisiadau a fydd yn galluogi'r gwasanaeth i ddatblygu a dod yn gynaliadwy heb gefnogaeth refeniw parhaus gan Gyngor Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

1. Argymhellir bod Aelodau yn ystyried Achos Busnes Cefndy ar gyfer buddsoddiad ac yn cefnogi'r cynnig i fuddsoddi (dewis C), yn amodol ar gytundeb y Grŵp Buddsoddi Strategol.

2. Argymhellir hefyd bod Aelodau'n cefnogi cais am Grant Buddsoddi Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer cost y gwaith gan gydnabod y bydd colli cyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi pwysau ychwanegol ar y system fudd-daliadau heb y buddsoddiad hwn.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1 Mae Gofal Iechyd Cefndy yn fusnes sy'n derbyn cefnogaeth Cyngor Sir Ddinbych ac yn darparu gwaith a hyfforddiant ystyrlon i bobl 60 oed a hŷn (mae 45 o'r gweithwyr yn anabl). Mae cyfraniad Cefndy i gyflogaeth a hyfforddiant lleol fel a ganlyn:

- Nifer y gweithwyr - 60
- Nifer y gweithwyr anabl - 45
- Cyfleodd gwaith i bobl ag Anableddau Dysgu - 2
- Lleoliad ysgol - 1

Sefydlwyd Cefndy yn 1976 a chafodd ei gefnogi gan gyfraniad cyllidebol gan y Cyngor. Yn y pum mlynedd ddiwethaf mae Cefndy wedi gwrthdroi'r duedd o

ddibynnu'n ormodol ar gefnogaeth ariannol Cyngor Sir Ddinbych drwy gyflawni twf masnachol ac effeithlonrwydd ariannol (gwelwch Atodiad 1 – Cynllun Busnes).

4.2 Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf mae Cefndy wedi:

- Cynyddu perfformiad gwerthiant dros £1 miliwn (£3.8 miliwn erbyn hyn)
- Lleihau ei ddibyniaeth ar Gyngor Sir Ddinbych (dros £200 mil)

4.3 Fodd bynnag, yr her sy'n wynebu'r cwmni rŵan yw cynaladwyedd y busnes/gwasanaeth ac fe allai hynny fygwth ei ddyfodol.

4.4 Dewisiadau:

a. Parhau â'r cynllun presennol a thynnu cymhorthdal Cyngor Sir Ddinbych, gan dderbyn y gall hynny arwain at golli swyddi a lleihau gweithgarwch y busnes. Byddai hynny yn ei dro yn lleihau'r effaith cymdeithasol h.y. y gefnogaeth sydd ar gael i bobl anabl sy'n cael eu cyflogi yn Sir Ddinbych.

b. Cadw lefel o gymhorthdal am gyfnod estynedig, gan gydnabod na fydd Cefndy yn gallu buddsoddi ond y bydd yn gallu cadw ei ethos cymdeithasol a'i ddarpariaeth i gyflogi pobl anabl, tra'i fod yn atgyfnerthu'r busnes fel bod modd i'r cwmni ymhen amser gefnogi ei hanghenion busnes ei hun.

c. Buddsoddiad Cyfalaf, yn unol â'r Cynllun Corfforaethol, gan alluogi Cefndy i fynd i'r afael â risgiau a dod yn fwy effeithlon gan ymdopi â cholli cyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**Argymhellir Dewis C – caniatáu buddsoddiad a fydd yn arwain at gynaladwyedd ariannol heb gyllid Cyngor Sir Ddinbych**

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Cefndy yn cefnogi'r Blaenoriaethau canlynol:

- Datblygu ein heconomi leol a'n cymunedau
- Gwarchod pobl ddiamddiffyn a sicrhau eu bod yn gallu byw mor annibynnol â phosib

Hefyd, mae buddsoddi yng nghwmni Cefndy wedi ei nodi fel blaenoriaeth benodol yn y Cynllun Corfforaethol.

## 6. Faint fydd yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd yn costio £500 mil sydd wedi ei neilltuo yng Nghronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau Oedolion. Ni fydd unrhyw wasanaeth arall, o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol neu o fewn Adran arall yn cael ei effeithio.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

Casgliad yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yw bod y cynnig hwn, os caiff ei gymeradwyo, yn diogelu swyddi pobl anabl, pobl a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd canfod gwaith. Mae'r bwlch rhwng cyfradd cyflogi pobl anabl a chyfradd cyflogi pobl abl yn fwy yng Nghymru nag unman arall yn y DU.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae'r cynnig hwn wedi ei baratoi gan y Bwrdd, sy'n cynnwys tri Aelod etholedig, ac wedi ei asesu gan Bennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes a'r Prif Swyddog Cyllid. Mae wedi ei drafod gan Bwyllgor Archwilio Perfformiad, a oedd yn cefnogi Dewis C fel ffordd o barhau i ddarparu cyflogaeth sydd wir ei angen i bobl anabl yn Sir Ddinbych. Bydd y Grŵp Buddsoddi Strategol yn ystyried manylion ariannol y cynnig yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae £500 mil wedi ei neilltuo yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer Cefndy. Bydd achos busnes manwl yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Buddsoddi Strategol er mwyn iddyn nhw ei ystyried cyn i'r Cyngor ei gymeradwyo. Fe ddylai'r buddsoddiad cyfalaf leddfu unrhyw golled yn sgil colli arian grant a chynorthwyo i hwyluso dileu cefnogaeth gyllidebol uniongyrchol y Cyngor. Dylid adolygu gwerthiant a chostau Cefndy yn y dyfodol i sicrhau bod y cwmni yn cydymffurfio â chyfyngiadau masnachu'r awdurdod lleol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y brif risg yw na fydd arian ar gael i gwmni Cefndy ei fuddsoddi a mynd i'r afael â risgiau eraill. Mae buddsoddiad o'r fath yn hanfodol o ran mynd i'r afael â risgiau, yn arbennig o ran:

- Y posibilrwydd y bydd y bobl anabl sy'n gweithio yng nghwmni Cefndy yn colli eu swyddi golli swyddi yn sgil colli nawdd yr Adran Gwaith a Phensiynau (£225 mil y flwyddyn o Hydref 2015)
- Y costau cynyddol (cyflogaeth a gweithredol) yn sgil peiriannau yn torri'n rheolaidd (30 mlwydd oed). Hyfywdra dan fygythiad.
- Yr amgylchedd weithio diogel yn cael ei beryglu yn sgil diffyg buddsoddi (Mae Asesiad Risg Tân Cyngor Sir Ddinbych 2012 yn nodi sawl maes ar gyfer ei wella gan gynnwys gwresogi, goleuo ac adraniad).

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Cyfansoddiad y Cyngor/Erthyglau Rhan 2 o'r Cyfansoddiad/para 6.3.4(ch), "Drwy weithredu eu swyddogaethau archwilio, gall Pwyllgorau Archwilio: wneud argymhellion i'r Cabinet a/neu'r Cyngor fydd yn codi o ganlyniad i'r broses archwilio".